RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Llun, 21 Tachwedd 2022 am 1.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd B Harris
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd M Norris

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

### 72 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiad o fuddiant personol canlynol ei wneud ynglŷn â'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol:
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber – "Mae Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn yn fy ward".

### 73 Cofnodion

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2022 yn rhai cywir.

### 74 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol 2021 i 2022

Darparodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Adroddiad Blynyddol drafft y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021 i 2022 i'r Aelodau.

Dywedodd wrth y Cabinet fod gyda'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol, yn rhan o Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd, aelodaeth drawsbleidiol ac yn unol â'i gylch gorchwyl mae'n ofynnol i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol lunio Adroddiad Blynyddol sy'n darparu crynodeb o rôl a gwaith y Bwrdd a gyflawnwyd yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2021 i 2022, a'i uchelgeisiau i'r dyfodol.

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr Aelodau at yr adran yn yr adroddiad a oedd yn nodi'r meysydd a nodwyd ar gyfer y rhaglen waith yn y dyfodol a fydd yn cael eu datblygu gan gadeirydd presennol y Bwrdd, y Cynghorydd G Caple.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet dros Faterion Newid yn yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol ei bod wedi bod yn fraint cael cadeirio Bwrdd Rhianta Corfforaethol y Cyngor, gan siarad am ba mor werthfawr oedd cael ymweliadau gan gynhalwyr, a phwysigrwydd gwahodd pobl ifainc i fynychu lle bo modd, a hynny i glywed eu barn yn uniongyrchol. A hithau'n Gadeirydd blaenorol y Bwrdd, dywedodd y Cynghorydd Leyshon wrth yr Aelodau eu bod nhw wedi ystyried llawer o adroddiadau yn ystod y flwyddyn ac roedden nhw o'r farn ei bod yn bwysicach nag erioed yn sgil effeithiau'r pandemig ein bod ni'n cael yr wybodaeth a'r newyddion diweddaraf am ein staff a'n pobl ifainc yn ein gofal. Dywedodd fod y staff wedi bod yn anhygoel yn ystod y pandemig, gan barhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol i'n pobl ifainc.

Aeth yr Aelod o'r Cabinet ymlaen i ddiolch i Aelodau'r Bwrdd. Dymunodd yn dda i'r Aelod o'r Cabinet newydd dros Faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Cynghorydd Gareth Caple, yn ei rôl yn Gadeirydd yn y dyfodol.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet dros Faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod yr adroddiad yn un cynhwysfawr iawn, gan ychwanegu nad oes gwell fuddsoddiad na chefnogi pobl ifainc a phlant hyd atyn nhw'n dod yn oedolion. Rhoddodd ei ddiolch i ymroddiad ac ymrwymiad y staff ac i'r Cynghorydd Leyshon am ei gwaith yn Gadeirydd y Bwrdd yn ystod Blwyddyn y Cyngor flaenorol.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** ei nodi.

## 75 Adroddiad ar Gyflawniad y Cyngor

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella yr adroddiad a oedd yn nodi cyflawniad ariannol a gweithredol y Cyngor yn ystod yr ail chwarter o fis Ebrill hyd at 30 Medi 2022.

Yn ôl sefyllfa cyllideb refeniw yr ail chwarter, y rhagolwg yw y bydd gorwariant o £10.277 miliwn. Dydy hyn ddim yn cynnwys goblygiadau cost dyfarniad cyflog 2022 i 2023 ar gyfer gweithwyr y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol y cytunwyd arno ar 1 Tachwedd 2022, na chynnig dyfarniad cyflog athrawon 2022 i 2023 a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cyfateb i gynnydd yn y bil cyflogau o £10.5 miliwn ar gyfer y flwyddyn gyfredol, gan olygu y bydd gorwariant cyffredinol o bron i £21 miliwn yn ôl y rhagolwg.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella mai'r buddsoddiad cyfalaf ar 30 Medi 2022 oedd £45.485 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli buddsoddiad cyfalaf parhaus sylweddol yn asedau a seilwaith y Cyngor ledled y fwrdeistref sirol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella mai'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at y gorwariant yn y rhagolwg yw'r galw mawr am ofal cymdeithasol parhaus a'r costau sydd ynghlwm, pwysau costau chwyddiant a lefelau is parhaus o ddefnyddio gwasanaethau.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at bob adran unigol o'r adroddiad, gan ychwanegu bod adran ychwanegol wedi'i hymgorffori yn yr adroddiad, sef Adran 7 – 'Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd'. Mae hyn yn rhoi diweddariad ar gynnydd y gwaith sy'n mynd rhagddo gan wasanaethau i helpu â chyflawni amcanion Strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor, sef 'Hinsawdd Ystyriol RhCT'.

***Sylwadau Aelodau o'r Cabinet***

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet dros Faterion Newid yn yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol fod yr adroddiad yn nodi'n glir lle mae'r pwysau ar y gyllideb, yn enwedig gyda gwasanaethau rheng flaen megis y Gwasanaethau i Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, yn ogystal â darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol o ganlyniad i gostau uwch o ran staffio a gweithredu cerbydau. O ran sefyllfa'r Gwasanaethau Hamdden, ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet ei fod yn gadarnhaol nodi bod un o'r meysydd allweddol a oedd yn creu pwysau yn ystod y chwarter cyntaf, sef lefelau incwm, bellach wedi gwella, wrth i ragor o ddefnyddwyr ddychwelyd i'r canolfannau hamdden.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet dros Faterion Newid yn yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol mai cyfanswm cyllideb buddsoddiad y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer eleni yw £172 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli rhaglen fuddsoddi hirdymor, wedi'i chefnogi'n rhannol gan gyllid Llywodraeth Cymru, ac yn sicrhau gwelliannau i eiddo’r Cyngor y mae modd eu gweld ledled y fwrdeistref sirol. Nododd yr Aelod o'r Cabinet rai meysydd allweddol megis prosiectau moderneiddio ysgolion, ystod o welliannau i'r priffyrdd, buddsoddiad parhaus i fynd i’r afael ag eiddo gwag, ac adeiladu cyfleuster gofal ychwanegol newydd ym Mhorth.

Aeth yr Arweinydd ati i ddiolch i'r Swyddogion am reoli'r cyllid a darparu'r diweddariadau. Ychwanegodd fod yr adroddiad yn nodi'n glir y pwysau ar wasanaethau a sut mae pwysau cyflogau wedi cynyddu ers y llynedd, sy'n esbonio'r gorwariant o £21 miliwn. Eglurodd yr Arweinydd fod mwyafrif helaeth y cronfeydd wrth gefn wedi'u dyrannu i gefnogi'r Rhaglen Gyfalaf.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cyd-destun gwasanaethau’r Cyngor sydd wrthi'n mynd i'r afael ag effeithiau parhaus cymunedau’n adfer o’r pandemig a’r argyfwng costau byw ledled y DU, sydd ill dau’n cyfrannu at gynnydd o ran y galw am lawer o wasanaethau a phwysau sylweddol ar gostau chwyddiant.

2. **Refeniw**

   Nodi a chytuno ar sefyllfa refeniw Cronfa Gyffredinol y Cyngor fel y mae ar 30 Medi 2022 (Adran 2 o'r Crynodeb Gweithredol).

3. **Cyfalaf**

   Nodi sefyllfa alldro cyfalaf y Cyngor fel y mae ar 30 Medi 2022 (Adrannau 3a i 3e o'r Crynodeb Gweithredol).

4. Nodi manylion Dangosyddion Materion Darbodusrwydd Cylch Rheoli'r Trysorlys fel y mae ar 30 Medi 2022 (Adran 3f o'r Crynodeb

Gweithredol).

5. **Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol**

   Nodi diweddariadau cynnydd yr ail chwarter ar gyfer blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor (Adrannau 5a i 5c o'r Crynodeb Gweithredol).

6. Nodi'r adroddiad cynnydd i wella ymateb tymor byr a thymor hir y Cyngor i ddigwyddiadau tywydd eithafol (Adran 6 o'r Crynodeb Gweithredol).

Nodi'r adroddiad cynnydd mewn perthynas ag ymateb y Cyngor i fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd (Adran 7 o'r Crynodeb Gweithredol).

**76 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD:** "Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**77 Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol – Diweddariad Interim 2018 i 2023**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor adroddiad cynnydd i'r Cabinet mewn perthynas â themâu allweddol Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018 i 2023.

**PENDERFYNWYD:** Trafod cynnwys yr adroddiad ac
2. Ystyried cynnwys y Llawlyfr Gwaredu Eiddo

**78 Materion Brys**

Dim

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.25 pm**

**Cllr A Morgan**
**Cadeirydd.**